# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd William T. Hughes - Is-Gadeirydd yn y Gadair<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, K. P. Hughes, R. L. Owen, Clive McGregor, Eric Roberts, H. W. Thomas. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio (IWJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |

---

Draft

Cyn cychwyn ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r holl Aelodau am y brofedigaeth a ddaeth i ran Mrs Elena White ar farwolaeth ddisymwth ei thad. 'Roedd yr angladd yn cael ei gynnal heddiw. Ar ran y Pwyllgor, cydymdeimlodd yn ddwys gydag Elena yn ei cholled drist a safodd yr aelodau mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Cadeirydd yn absennol heddiw oherwydd ei briodas ddiweddar a'i fis mel. Dymunodd yr Aelodau yn dda i'r Cynghorydd Roberts a'i wraig i'r dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n datgan diddordeb mewn perthynas â cheisiadau 6.1, 6.2, 6.3, 6.4, 13.1, 13.2 a 13.3 ar y Rhaglen. Etholwyd y Cynghorydd R. L. Owen yn Gadeirydd ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais ar y ceisiadau hynny. Diolchodd y Cynghorydd Owen i'r Pwyllgor am eu hyder ynddo.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Chorlton, E. G. Davies, T. H. Jones, J. Arwel Roberts, J. Penri Williams.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyniwyd a chofnodwyd y datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011.

### 4 YMWELIADAU SAFLE

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn dilyn cyfarfod 5 Hydref 2011.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y byddai'r Adolygiad Blynyddol o Benderfyniadau Cynllunio yn digwydd yn ystod Rhagfyr 2011 ac Ionawr 2012 (i gyd-fynd gydag unrhyw

ymweliadau safle arfaethedig). Os oedd gan Aelodau unrhyw safleoedd penodol y byddent yn dymuno i'r Pwyllgor ymweld â nhw, gofynnodd eu bod yn cysylltu ag ef cyn gynted ag y bo modd.

## 5 Y CYHOEDD YN SIARAD

Dywedodd y Cadeirydd y byddai un siaradwr cyhoeddus mewn perthynas â chais 10.2.

## 6 CEISIADAU A OHIRIWYD

***Gwnaed Datganiadau o Ddiddordeb gan y Cynghorydd W. T. Hughes mewn perthynas â cheisiadau 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4. Gadawodd y Cynghorydd Hughes y cyfarfod cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar y ceisiadau hyn. Aeth y Cynghorydd R. L. Owen i'r Gadair.***

***Cafodd ceisiadau 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4 eu trin gyda'i gilydd.***

**6.1 11C572 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Tal y Llyn, Mynydd Parys, Amlwch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 5 Hydref 2011, penderfynodd yr Aelodau ohirio rhoi sylw i'r cais fel bod modd ymgynghori ymhellach ynghylch lefelau sŵn.

Argymhellodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y dylid gohirio'r cais oherwydd bod trafodaethau yn parhau ac nad yw'r mater wedi ei ddatrys. Adroddodd bod amheuon yn parhau ynghylch a fyddai'r lefelau sŵn yn foddhaol a phwysleisiodd bod angen gwneud mwy o waith cyn i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad ar y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts, gyda'r Cynghorydd K. P. Hughes yn eilio, y dylid gohirio rhoi sylw i'r cais.

**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.2 11C573 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Penrallt, Penrhyd, Amlwch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn a bod y cais yn cael ei wneud ar dir Cynghorydd Sir arall ar Gyngor Sir Ynys Môn.

***Gweler 6.1 uchod.***

**6.3 38C266 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Rhoslan, Rhosgoch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

***Gweler 6.1 uchod.***

Draft

**6.4 ffC288 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Pensarn, Rhosgoch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

***Gweler 6.1 uchod.***

**7. CEISIADAU YN CODI O'R COFNODION**

**7.1 49C155B – Cais amlinellol i godi dwy annedd, garejis, ynghyd â gwaith altro i'r fynedfa i gerbydau yn Hafod yr Ynys, y Fali.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais wedi ei gyflwyno gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn a'i fod wedi ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad. Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r cais ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau cyn i'r cyfnod hysbysu ddod i ben. Cafwyd sylwadau ar ôl dyddiad y Pwyllgor ac roeddent wedi eu cyflwyno ar dudalennau 48 a 49 yn adroddiad y Swyddog fel bod modd i'r Aelodau gymryd y sylwadau hynny i ystyriaeth. Roedd ymateb y Swyddog i'r sylwadau hefyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd y Swyddog yn parhau i argymell cymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo'r cais, gyda'r Cynghorydd K. Hughes yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.**

**8. CEISIADAU ECONOMAIDD**

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau economaidd i'w penderfynu.

**9. CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY**

Dim ceisiadau am dai fforddiadwy yn y cyfarfod hwn.

**10. CEISIADAU A OEDD YN TYNNU'N GROES**

**10.1 42C60F – Codi annedd a garej yn Stryd y Capel, Pentraeth**

Dywedodd y Rheolydd Rheoli Datblygu fod y cais yn tynnu'n groes i'r Cynllun Datblygu ond bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'i fryd ar gymeradwyo. Mae'r cais yn gais cynllunio llawn am fyngalo dormer a garej ac i symud y fynedfa i gerbydau.

Ymddiheurodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ei fod yn newid ei argymhelliad yn hwyr ond, roedd materion mewn perthynas â charthffosiaeth wedi codi o ganlyniad i newidiadau mewn rheoliadau sy'n golygu bod angen symud yr annedd arfaethedig. O'r herwydd, bydd angen ail-ymgynghori i sicrhau bod partïon sydd â diddordeb yn cael gwybod am y newid ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas y dylid gohirio rhoi sylw i'r cais. Cafodd ei eilio Gynghorydd Eric Roberts.
**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

Draft

**10.2 49C18C – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl i gynnwys codi 48 o anheddau ynghyd ag adeiladu ffordd fynediad newydd yn Valley Mill, Y Fali.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais wedi ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd G. O. Parry MBE. Mae'r cais yn tynnu'n groes i'r cynllun datblygu ond mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i fryd ar ei gymeradwyo.

Mae'r cynnig ar ffurf amlinellol ar gyfer codi 48 o anheddau preswyl sy'n cynnwys 34 eiddo dwy ystafell wely a 14 eiddo tair ystafell wely. Bydd y cynnig yn darparu 66 o lecynnau parcio ar y safle.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Rhys Davies annerch y cyfarfod ar ran yr ymgeisydd. Dywedodd Mr. Davies y byddai ei gyflwyniad yn un byr iawn. Roedd wedi bod yn trafod gyda swyddogion ynghylch materion parcio ac roedd y materion hynny bellach wedi eu datrys. Roedd yn cytuno'n llwyr gydag adroddiad y Swyddog a gofynnodd i'r Pwyllgor gefnogi argymhelliad y Swyddog o gymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd H. Thomas y dylid cymeradwyo'r cais, gyda'r Cynghorydd C. McGregor yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**11. CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

**11.1 31C392 – Cais llawn i godi estyniad to fflat unllawr yn 5 Trem Eryri, Llanfairpwll**

*Datganiadau o Ddiddordeb gan y Cynghorydd Jim Evans a'r Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd). Gadawodd y ddau y cyfarfod cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar y cais.*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod yr ymgeisydd yn ffrind i swyddog sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a bod y cais wedi ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae'r cynnig yn cynnwys codi estyniad to fflat unllawr y tu cefn i 5 Trem Eryri. Roedd y Swyddog yn argymell cymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas y dylid cymeradwyo'r cais, gyda'r Cynghorydd Eric Roberts yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad y swyddog.**

**11.2 22C47Y – Cais amlinellol i godi 4 annedd ynghyd â gwelliannau i'r fynedfa gyfredol ar dir ger Mynydd Crafcoed, Llanddona.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog yn y Cyngor a bod y cais wedi ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae'r cais yn gais amlinellol gyda materion mynediad, gosodiad a maint wedi eu cynnwys i'w hystyried. Roedd cynllun gosodiad, croestoriadau a chynllun draenio manwl gyda'r cais.

Ychwanegodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais yng nghanol y pentref, mewn ardal sydd wedi ei datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf. Cyfeiriodd at lythyr yn y pecyn llythyrau a roddwyd i aelodau a nododd bod y pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwnnw wedi cael sylw yn ei

Drafft

adroddiad. Cadarnhaodd nad oedd gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i'w gwneud. Er bod pryderon lleol wedi ei nodi a'u cynnwys ar dudalen 85 y rhaglen, ychwanegodd y Swyddog ei fod yn credu, o safbwynt cynllunio, fod yr holl faterion perthnasol a phwysig wedi cael eu trin yn foddhaol. Nid oedd yn gweld unrhyw reswm dros wrthod y cais. Os oedd yr Aelodau am ganiatáu'r cais, gofynnodd iddynt roi awdurdod i'r swyddog newid amod 11.

Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas, fel yr Aelod Lleol, yn cytuno'n llwyr gyda sylwadau'r swyddog. Cadarnhaodd fod trafodaethau eang wedi eu cynnal gyda thrigolion lleol a'i fod yn fodlon bod y cynnig yn cwrdd â'r holl ofynion cynllunio. Roedd yn cydnabod bod rhai pryderon wedi eu codi ond nid materion cynllunio oedd y rheini. Roedd yn dymuno diolch yn ddiffuant i swyddogion yr Adrannau Cynllunio a Phriffyrdd a oedd wedi delio â'r cais mewn ffordd eithriadol o dda. Cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais. Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau yn adroddiad y Swyddog. PENDERFYNWYD YMHELLACH y dylid rhoi awdurdod i'r swyddog ddiwygio amod 11.**

**11.3 49C29K – Cais llawn ar gyfer dymchwel y garej gyfredol ynghyd â chodi garej newydd ac ystafell haul yn 1 Stad Glantraeth, Gorad, y Fali.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn swyddog yn y Cyngor. Roedd y cais wedi ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae'r cais yn gais llawn i ddymchwel y garej ddwbl to fflat a chodi garej sengl to crib gydag ystafell haul i'r cefn. Roedd y Swyddog yn argymell cymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd K. Hughes y dylid cymeradwyo'r cais, gyda'r Cynghorydd C. McGregor yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a restrwyd yn adroddiad y Swyddog.**

## 12. GWEDDILL Y CEISIADAU

**12.1 19C1085 – Cais llawn i newid y defnydd o ganolfan ddydd yn lloches nos dros dro am gyfnod o 6 mis yn Afallon, Ffordd Llanfawr, Caergybi**

Dygwyd y cais i'r Pwyllgor oherwydd mai'r Awdurdod Lleol sydd biau'r tir sy'n ffurfio rhan o'r cais.

Mae'r cais yn gais llawn i newid defnydd o'r adeilad o ganolfan ddydd i fod yn lloches nos dros dro ar gyfer pobl ddigartref am gyfnod o 6 mis.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y defnydd o'r adeilad am gyfnod o 6 mis ar sail dros dro a'i fod yn cwrdd â'r holl reoliadau cynllunio. Ychwanegodd fod yr aelod lleol wedi gwneud cais, ar lafar, am i'r Pwyllgor ohirio rhoi sylw i'r cais oherwydd ei fod yn dymuno siarad ar y mater. Yn ogystal, roedd y Cynghorydd John Chorlton wedi ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn y cyfarfod heddiw ond ei fod wedi cael deiseb yr oedd yn awyddus i'w chyflwyno i'r Pwyllgor. Gorffennodd y Swyddog trwy ddweud na allai weld unrhyw reswm i ohirio'r cais o safbwynt cynllunio er ei fod yn nodi fod y Cynghorydd Chorlton a'r Cynghorydd Roberts yn dymuno cael gwneud hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd R. L. Owen a oedd yr amser ar gyfer penderfynu'r cais wedi dod i ben. Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Datblygu bod y cyfnod 8 wythnos wedi dod i ben ac felly



Draft

roedd gan yr ymgeisydd hawl i apelio.  Cadarnhaodd nad oedd unrhyw reswm cynllunio dros beidio â phenderfynu'r cais ac nad oedd unrhyw faterion technegol angen sylw.

Mynegodd y Cynghorydd Lewis Davies bryder fod y tywydd oer ar y ffordd a bod y bobl hyn yn bobl fregus a digartref.  Roedd arwyddion bod y gaeaf am fod yn un caled a chynigiodd y dylid delio gyda'r cais.  Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod wedi nodi barn y Cynghorwyr Roberts a Chorlton a bod y cyfnod 8 wythnos wedi dod i ben. Dywedodd y byddai'r Cynghorwyr wedi medru gofyn i rywun ddod i'r cyfarfod i siarad ar eu rhan a chyflwyno'r ddeiseb.  Eiliodd gynnig y Cynghorydd Davies y dylid delio â'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd K. Hughes y dylid cymeradwyo'r cais, gyda'r Cynghorydd H. Thomas yn eilio.

Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr Aelodau fod deiseb ar ei ffordd ac felly dylai aelodau ystyried caniatáu'r cais yn amodol ar gynnwys y ddeiseb ac, os bydd mater cynllunio yn codi ei ben, nad yw'n cael sylw yn adroddiad y Swyddog, yna dylai'r mater ddod yn ôl i'r Pwyllgor am ragor o drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(i)** **cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau yn yr adroddiad.**
**(ii)** **os bydd mater cynllunio, nad yw wedi cael sylw yn adroddiad y Swyddog, wedi ei gynnwys fel rhan o'r ddeiseb, fod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor am ragor o drafodaeth.**

**12.2 19C1086 – Cais llawn i godi ffrynt siop, newid y defnydd o'r llawr cyntaf a'r ail lawr i bedwar o fflatiau hunangynhwysol a chodi estyniad ar gyfer dau fflat yn 44 Stryd y Farchnad, Caergybi.**

Dygwyd y cais i sylw'r Pwyllgor oherwydd bod y cynnig wedi ei gyllido'n rhannol gan y Cyngor fel rhan o'r Fenter Treftadaeth Treflun yng Nghaergybi.

Mae'r cynnig yn cadw'r gofod masnachol ar y llawr gwaelod ond yn cynnig ffrynt siop newydd i ddiweddaru a gwella ymddangosiad yr adeilad; y lloriau uchaf i'w haddasu'n bedwar o fflatiau hunangynhwysol.  Mae ailddatblygu'r llety o fewn yr iard y tu cefn i'r eiddo yn cynnwys elfen adeiladu o'r newydd, sef dau o fflatiau hunangynhwysol ychwanegol.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod yr eiddo'n wag ar hyn o bryd ac ychwanegodd ei fod yn fodlon gyda'r cynnig, yn amodol ar gytundeb Adran 106 a fyddai'n sicrhau fod yr elfen siop yn y cynnig yn cael ei chadw.

Cynigiodd y Cynghorydd Clive McGregor y dylid cymeradwyo'r cais, gyda'r Cynghorydd Eric Roberts yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais, yn amodol ar gytundeb Adran 106 a'r amodau yn adroddiad y Swyddog.**

**12.3 49C20K – Cais llawn i newid defnydd o dir a darparu cyfleusterau adloniadol yn Ardal Adloniant Llanfachraeth, Llanfachraeth.**

*Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd K. P. Hughes. Nododd y Cynghorydd Hughes ei fod yn dymuno cymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais fel yr Aelod Lleol ond na fyddai'n pleidleisio arno.*

Dygwyd y cais i'r Pwyllgor oherwydd ei fod ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno.

Draft

Mae’r cynnig yn cynnwys newid defnydd o dir i ddarparu cyfleusterau adloniant yn Ardal Adloniant Llanfachraeth.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod hwn yn gynnig uchelgeisiol iawn a’i fod yn argymell ei gymeradwyo.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd K. P. Hughes fod y cais hwn yn enghraifft ardderchog o bobl leol, yr hen a’r ieuanc fel ei gilydd, yn dod ynghyd i ddarparu cyfleusterau adloniant yn yr ardal. Gofynnodd i’r Aelodau gymeradwyo’r cais fel na fyddai ymdrechion y bobl leol yn ofer.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo’r cais, gyda’r Cynghorydd Jim Evans yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a restrwyd yn adroddiad y Swyddog.**

*Ymataliodd y Cynghorydd K. P. Hughes ei bleidlais ar y cais hwn.*

**12.4 33LPA931B/CC – 33LPA931B/CC – Cais llawn i adeiladu mynedfa i gerbydau, gosodiad diwygiedig ar gyfer cyfleuster ailgylchu ynghyd â gosod ‘superweigh’ yn Nepo Gaerwen.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod y cais yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i greu cyfleuster ailgylchu ar gyfer agregau anadweithiol ar y safle ym mis Tachwedd 2010. Mae’r cais hwn yn ceisio newid y caniatâd gwreiddiol i gynnwys symud lleoliad y fynedfa ar gyfer cerbydau i’r safle, lleoli pont bwyso ac adolygu’r cynllun ar gyfer symudiadau traffig ar y safle ei hun.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ei fod yn argymell cymeradwyo ond gofynnodd am i’r caniatâd hwnnw gynnwys rhai o’r amodau a gafodd eu cynnwys gyda’r caniatâd gwreiddiol fel rhan o’r amodau mewn perthynas â’r cais hwn.

Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Owen y dylid cymeradwyo’r cais, gyda’r Cynghorydd Eric Roberts yn eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais gyda’r amodau a amlinellir yn adroddiad y Swyddog a rhoi awdurdod i’r Swyddog gynnwys rhai o’r amodau a oedd wedi eu cynnwys yn y caniatâd gwreiddiol.**

**13 MATERION ERAILL**

***Cafodd ceisiadau 13.1, 13.2 a 13.3 eu trin gyda’i gilydd.***

**13.1 20C272/SCR - Barn sgrinio ar gyfer codi tybin gwynt gyda hwb hyd at 37m o uchder, rotor hyd at 33.4m ar draws ac uchder brig fertigol o hyd at 53.7m ar dir ger Nant y Fran, Cemaes.**

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod un o Gyfarwyddwyr y cwmni yn perthyn i un o weithwyr y Cyngor. Penderfynwyd na fyddai angen Asesiad o’r Effaith ar yr Amgylchedd gyda chais llawn a bod y mater felly yn cael ei adrodd i’r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y ceisiadau yn cyfeirio at faterion sgrinio mewn perthynas â thyrbinau gwynt. Roedd y cais wedi ei benderfynu gan swyddogion dan bwerau

Draft

dirprwyol.  Cyfeiriwyd y mater i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig oherwydd y cyswllt rhwng yr ymgeisydd a'r Cyngor Sir.

Cynigiodd y Cynghorydd H. Thomas y dylid nodi'r mater er gwybodaeth gyda'r Cynghorydd K. Hughes yn eilio.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**13.2   20C272A/SCR – Barn sgrinio ar gyfer codi tybin gwynt gyda hwb hyd at 40m o uchder, rotor hyd at 52m ar draws ac uchder brig fertigol o hyd at 66m ar dir ger Nant y Fran, Cemaes.**

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod un o Gyfarwyddwyr y cwmni yn perthyn i un o weithwyr y Cyngor.  Penderfynwyd na fyddai angen Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd gyda chais llawn a bod y mater felly yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig.

***Gweler 13.1 uchod.***

**13.3   38C185A/SCR – Barn sgrinio ar gyfer codi tybin gwynt gyda hwb hyd at 25m o uchder, rotor hyd at 8.5m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 29.25m ar dir ger Nant y Fran, Cemaes.**

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais wedi ei gyflwyno gan yr Aelod Lleol.  Penderfynwyd na fyddai angen Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd gyda chais llawn a bod y mater felly yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig.

***Gweler 13.1 uchod.***

**13.4   44LPA950/CC – Cais i benderfynu a oes angen caniatâd ymlaen llaw ar gyfer yr adeilad amaethyddol ar gyfer cadw peiriannau bwyd-gwellt yn Gorslwyd Bach, Rhosybol.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais hysbysiad ymlaen llaw wedi ei gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol.  Penderfynwyd na fyddai angen caniatâd ymlaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol ac adroddwyd ar y mater felly er gwybodaeth yn unig.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

Draft

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:30pm

**Y CYNGHORYDD W. T. HUGHES**
**CADEIRYDD**